Taflen Ffeithiau ar Anghenion Addysgol Arbennig

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch darparu addysg i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae gan yr Awdurdod Addysg Lleol, fel rhan o'r Cyngor, ddyletswydd cyffredinol i wneud trefniadau i addysgu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Er y gellir fel arfer cwrdd ag anghenion plentyn yn yr ysgol heb i'r AALl ymyrryd, weithiau bydd yr Awdurdod yn paratoi datganiad o anghenion addysgol arbennig.
Bydd yr Ombwdsmon yn gallu ymchwilio i gwynion gan rieni bod yr AALl wedi methu darparu i gwrdd ag anghenion addysgol arbennig eu plentyn.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych ar unrhyw oedi yn cyflawni asesiad o anghenion addysgol arbennig plentyn, neu yn darparu datganiad o'r anghenion hynny.

- edrych i weld a wnaeth yr AALl ddilyn y rheolau o ran asesu anghenion a, lle bo angen, wrth ddarparu datganiad.

- edrych i weld a fu oedi neu a wnaeth yr AALl fethu sicrhau darpariaeth yn unol â'r datganiad.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- cyflawni ei asesiad ei hun o anghenion y plentyn.

- gorfodi'r Awdurdod Addysg Lleol i ddarparu datganiad o anghenion addysgol arbennig os yw'r Awdurdod yn ystyried nad oes angen un.

- dweud wrth yr AALl beth i'w roi yn y datganiad.

Materion i gadw mewn cof

Os yw'r AALl yn gwrthod trefnu i asesu anghenion addysgol arbennig eich plentyn, neu'n gwrthod darparu datganiad wedyn, gallwch apelio i'r Tribiwnlys Anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig. Gallwch hefyd apelio i'r Tribiwnlys os nad ydych yn hapus â'r hyn y mae'r AALl wedi'i roi yn y datganiad. Felly, ni fydd yr Ombwdsmon yn edrych ar unrhyw ran o'ch cwyn sy'n ymwneud â'r materion hyn.

Os yw'r Ombwdsmon yn cadarnhau (yn cytuno) gyda'ch cwyn, efallai y bydd yn gwneud argymhellion i'r AALl ynghylch beth ddylai ei wneud. Gall hyn gynnwys argymell bod yr AALl yn gwneud taliad ichi fel y gallwch dalu'n breifat am gymorth ychwanegol i'ch plentyn.

Gwybodaeth bellach

Mae'r Cod Ymarfer ar Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru, a gwybodaeth ddefnyddiol arall, ar gael o dan yr adran addysg ar wefan **Llywodraeth y Cynulliad** yn www.wales.gov.uk

Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth hefyd ar gael oddi wrth **Snap Cymru** yn www.snapcymru.org, neu gan y Ganolfan Cyngor Addysgol (ACE) yn www.ace-ed.org.uk

Am fwy o wybodaeth am **Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru** ewch i'w gwefan yn: www.sentw.gov.uk neu ffoniwch eu llinell gymorth ar **01597 829800**

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ